Cronfeydd yr UE:
Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds:
Investing in Wales

# Legal Innovation Lab Wales

## Project Description

£5.6 million operation (£4 million ERDF), supporting the development of unique research/ collaboration facilities and the appointment of research staff.

The operation aim is to encourage innovation in LegalTech, Access to Justice, and countering cyber threats by:

- maximising opportunities to innovate in the emerging LegalTech sector;
- developing toolkits and frameworks to mitigate the risk of online platforms and social media being exploited by criminals and terrorists;
- deploying digital products and services that help communities to access legal guidance and information.

Builds on the work of the University's Cyber Threats Research Centre, Centre for Innovation and Entrepreneurship in Law, and Law Clinic.

## Delivery Model

- Establish new research and innovation facilities:
  - Cyber Threats Suite
  - Legal Innovation Centre
  - Collaboration and Innovation space
  - Law Clinic
- Appoint a project team (inc. software development team)
- Appoint researchers aligned to the Cyber Threats and LegalTech agendas
- Undertake engagement activities to bring researchers and research users together to develop collaborations.

## Geographical Coverage

The project will benefit all local authorities across Wales. The operation is funded under West Wales and the Valleys but is intended to support legal innovation across Wales.

## Specific Targets

- Establish new research facilities by Summer 2020
- Appoint 7.6FTE new researchers
- 20FTE researchers working in the facilities by June 2023
- 20 partners collaborating on research projects
- £3.4 million research income

## Contact Details

Dr Chris Marshall
Hillary Rodham Clinton School of Law,
Swansea University,
Singleton Park,
Swansea,
SA2 8PP

c.g.marshall@swansea.ac.uk

01792 513240

@swansea_law

# Labordy Arloesedd Cyfreithiol Cymru

## Disgrifiad o'r Prosiect

Cynllun £5.6 miliwn (£4 miliwn drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop), yn cefnogi datblygiad cyfleusterau ymchwil/cydweithio unigryw a threfniadau penodi staff ymchwil.

Nod y cynllun yw annog arloesedd mewn Technoleg Gyfreithiol, Mynediad at Gyfiawnder, a gwrthsefyll seiberfygythiadau drwy wneud y canlynol:

- sicrhau'r cyfleoedd gorau i arloesi yn y sector Technoleg Gyfreithiol newydd;
- datblygu pecynnau cymorth a fframweithiau i liniaru'r perygl o droseddwyr a therfysgwyr yn cam-fanteisio ar gyfryngau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol;
- defnyddio cynnyrch a gwasanaethau digidol sy'n helpu cymunedau i gael gafael ar ganllawiau a gwybodaeth gyfreithiol.

Mae'r cynllun yn parhau â gwaith y Ganolfan Ymchwil i Seiberfygythiadau, y Ganolfan ar gyfer Arloesi ac Entrepreneuriaeth yn y Gyfraith, a Chlinig y Gyfraith yn y Brifysgol.

## Model Cyflawni

- Sefydlu cyfleusterau ymchwil ac arloesi newydd:
  - Ystafelloedd Seiberfygythiadau
  - Canolfan Arloesi Cyfreithiol
  - Man Cydweithredu ac Arloesi
  - Clinig y Gyfraith
- Penodi tîm prosiect (gan gynnwys tîm datblygu meddalwedd)
- Penodi ymchwilwyr a fydd yn gweithio ym maes Seiberfygythiadau a Thechnoleg Gyfreithiol
- Cynnal gweithgareddau ymgysylltu i ddod ag ymchwilwyr a defnyddwyr ymchwil at ei gilydd i ddatblygu prosiectau cydweithio.

## Cwmpas Daearyddol

Bydd y prosiect o fudd i bob awdurdod lleol ledled Cymru. Ariennir y gwaith o dan raglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ond bwriedir iddo gefnogi arloesedd cyfreithiol ledled Cymru.

## Targedau Penodol

- Sefydlu cyfleusterau ymchwil newydd erbyn haf 2020
- Penodi 7.6 ymchwilydd newydd cyfwerth ag amser llawn
- 20 ymchwilydd cyfwerth ag amser llawn i weithio yn y cyfleusterau erbyn mis Mehefin 2023
- 20 o bartneriaid yn cydweithio ar brosiectau ymchwil
- £3.4 miliwn o incwm ymchwil

## Manylion Cyswllt


Dr Chris Marshall
Hillary Rodham Clinton School of Law,
Swansea University,
Singleton Park,
Swansea,
SA2 8PP

c.g.marshall@swansea.ac.uk

01792 513240

@swansea_law